**Adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydymffurfio â safonau 2018 iaith Cymru-19**

Cyflwyniad

Dyma gyhoeddi trydydd adroddiad Gweinidogion Cymru ar eu cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg, ers i'r Safonau ddod i rym ar 30 Mawrth 2016. Mae'r Safonau bellach wedi'u hymgorffori o fewn y sefydliad, ac wedi dod yn realiti gweithredol i Lywodraeth Cymru.

Yn ystod y cyfnod o baratoi gweithredu'r safonau, am resymau eglurdeb a phriodoldeb, sefydlwyd strwythur diwygiedig o fewn y Llywodraeth, yn gwahanu swyddogaethau polisi'r Gymraeg oddi wrth y gwaith o sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau. Mae'r trefniant hwn yn parhau. Lleolir tîm polisi'r Gymraeg o fewn y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, tra bo tîm cydymffurfio â'r safonau wedi'i leoli o fewn Grŵp Swyddfa'r Prif Weinidog a Brexit. Tîm bach iawn o staff sydd yn gweithio'n ganolog ar gydymffurfiaeth er eu bod wedi'u cefnogi gan rwydwaith o gydlynwyr ar draws y sefydliad.

Mae delio â pholisi gorfodi Comisiynydd y Gymraeg wedi parhau i gyfrif am ran sylweddol o waith y tîm cydymffurfio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## 1. Cydymffurfio gyda'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

### 1.1 Cyffredinol

Ein nod yw sicrhau y gall pobl Cymru ymgysylltu gyda'u Llywodraeth yn eu dewis iaith ar bob achlysur.

Fel y crybwyllwyd yn y cyflwyniad, rydym yn parhau i weithredu rhwydwaith o gydlynwyr iaith, gyda chynrychiolwyr ar draws y sefydliad, i roi sicrwydd bod y safonau'n cael eu dilyn wrth ddarparu gwasanaethau trwy'r gwahanol Grwpiau o fewn y Llywodraeth. Mae'r rhwydwaith yn parhau i fod yn rhan arwyddocaol o'r jig-so o gydymffurfio â'r safonau, caniatáu rhannu negeseuon allweddol ar gydymffurfiaeth o fewn y Grwpiau, yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cydweithwyr am gyngor ynghylch cydymffurfio, ac maent yn darparu sicrwydd ynghylch cydymffurfio o fewn y sefydliad.

Ym mis Tachwedd 2018 gwahoddwyd Llywodraeth Cymru i rannu arfer da fel rhan o Seminar Arferion Llwyddiannus 'Mesur o Lwyddiant' Comisiynydd y Gymraeg. Yr astudiaeth achos a ddewiswyd oedd yr arfer o ddarparu gwasanaeth dwyieithog yn y dderbynfa ym mhrif swyddfa Llywodraeth Cymru drwy gontract trydydd parti. Mae recriwtio a chadw staff derbynfa sydd â sgiliau dwyieithog wedi bod yn heriol ar adegau. Mae cytundeb i gyflenwi gwasanaethau derbynfa nawr ar waith drwy gyflenwr allanol ac mae hyn wedi arwain at welliant sylweddol yn ansawdd y gwasanaeth. Mae darparu gwasanaeth yn ddwyieithog yn un o ofynion craidd y cytundeb, ynghyd â chyfrifoldeb dros recriwtio a datblygu'r staff. Rydym yn croesawu gwaith Comisiynydd y Gymraeg yn rhannu'r arfer da ar draws sefydliadau sy'n

ddarostyngedig i ddyletswyddau statudol, ac yn sicr rydym wedi elwa eleni o ddysgu mwy am arferion da mewn sefydliadau eraill.

1.2 Cwynion

Derbyniwyd 38 cwyn sy'n ymwneud â’r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ystod y cyfnod adrodd. Derbyniwyd 12 cwyn yn uniongyrchol gan aelodau'r cyhoedd, ymchwiliwyd ac ymatebwyd i’r cwynion hyn o dan gam cyntaf polisi cwynion Llywodraeth Cymru. O'r 26 cwyn a dderbyniwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, terfynwyd 10 ymchwiliad.

## 2. Cydymffurfio gyda’r Safonau Llunio Polisi

2.1 Cyffredinol

*Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae *Cymraeg 2050* a'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) yn nodi bod yr iaith Gymraeg yn flaenoriaeth strategol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw gweld y Gymraeg yn ffynnu, gyda chynnydd yn y nifer o bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.

Mae’r Safonau Llunio Polisi yn ei gwneud hi’n ofynnol i Lywodraeth Cymru:

1. ystyried effeithiau neu ddylanwad ein penderfyniadau polisi ar yr iaith Gymraeg (cadarnhaol a negyddol);
2. ystyried sut i gynyddu effeithiau cadarnhaol, lliniaru neu leihau effeithiau niweidiol a manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo defnydd o’r Gymraeg;
3. ceisio barn a safbwyntiau ar yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg wrth ymgysylltu neu ymgynghori a chasglu barn siaradwyr Cymraeg a defnyddwyr yr iaith.

Defnyddir fframwaith asesiad effaith integredig newydd gan y sefydliad ers 2018 i ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Diben y fframwaith yw cynnig cyngor cynhwysfawr i staff ar roi ystyriaeth briodol i'r iaith Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi. Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg yw un o'r asesiadau statudol a gorfodol sydd yn rhaid i swyddogion gwblhau wrth ddatblygu, adolygu neu ddiwygio polisïau. Defnyddir proses pum cam o fewn y fframwaith, sef cynllunio; asesu; adrodd; ymgynghori; a chyhoeddi.

Y nod yw datblygu polisïau o'r ansawdd uchaf posibl sydd yn eu tro, yn gwneud gwahaniaeth i ddinasyddion Cymru. Mae'r fframwaith yn cyd-fynd yn agos ag amcanion *Cymraeg 2050*, ac yn sicrhau bod yr amcanion yn cael eu prif ffrydio o fewn penderfyniadau polisi a wneir gan Weinidogion. Er mwyn helpu staff i ddefnyddio'r fframwaith newydd, rhannwyd canllaw cynhwysfawr ynghyd â llawlyfr data diwygiedig ar yr iaith Gymraeg yng Nghymru, a'r canllaw ar sut i fynd ati i gwblhau'r asesiad effaith.

Mae'r templedi ymgynghori safonol wedi'u diwygio i sicrhau bod ni hefyd yn ceisio cael barn yr ymatebwyr ynghylch effeithiau ein penderfyniadau polisi ar yr iaith Gymraeg. Yn yr un modd, mae templedi caffael safonol yn sicrhau bod y safonau yn ystyriaeth bwysig wrth gontractio gwasanaethau gan drydydd parti. Datblygwyd canllawiau ar gyfer staff ar gydymffurfio â gofynion yn ystod ymarferion ymgynghori, gwasanaethau contractio, ariannu grantiau a chomisiynu ymchwil.

2.2 Cwynion

Derbyniwyd tri chwyn yn ymwneud â Safonau Llunio Polisi yn ystod y cyfnod adrodd. Terfynwyd dau o'r ymchwiliadau.

## 3. Cydymffurfio gyda'r Safonau Gweithredu

3.1 Cyffredinol

Yn ystod 2018-19 gwelwyd y Gymraeg yn datblygu yn ei defnydd yn fewnol o fewn y sefydliad. Gwelwyd cynnydd yn y gwasanaethau oedd ar gael i staff drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr ydym wedi troi at gynghorau Ynys Môn a Rhondda Cynon Taf, ynghyd â Heddlu De Cymru a'r Chomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol i ddysgu gwersi o'r mentrau y maen nhw wedi'u rhoi ar waith yn ddiweddar i ddatblygu eu polisïau ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg. Hefyd daeth ymgynghorydd polisi iaith Gymraeg Cyfoeth Naturiol Cymru atom i drafod hyrwyddo'r iaith yn fewnol a rhannu arferion da sydd wedi'u sefydlu o fewn y corff. Mae gwaith pellach ar waith o ganlyniad ar bolisi'r Llywodraeth ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg.

Gwelwyd cynnydd calonogol yn y nifer o swyddogion oedd yn hunanasesu eu sgiliau iaith Gymraeg ar lefel 5 yn ystod y cyfnod adrodd: gwelsom gynnydd o 5% mewn sgiliau darllen (34 aelod o staff), 4.3% mewn sgiliau siarad (32 o aelod o staff), 4% mewn sgiliau deall (32 o aelod o staff) a 5.1% mewn sgiliau ysgrifennu (21 o aelod o staff).

Cynhaliwyd sesiynau blasu iaith Gymraeg yn y swyddfa i ddathlu 'Diwrnod Shwmae / Su'mae yn Hydref 2018. Cynhaliwyd y sesiynau ar y cyd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mynychodd 71 aelod o staff y sesiynau ar draws y swyddfeydd yng Nghaerdydd, Aberystwyth a Merthyr Tudful. Yn ystod y sesiwn anogwyd y staff i chwilio am wybodaeth ar wefan y Ganolfan, a rhoddwyd ffocws penodol ar gyrsiau 10 awr ar-lein y Ganolfan ar gyfer dysgwyr lefel mynediad. Yn dilyn y sesiynau ym mis Hydref rhedwyd ymgyrch gyfathrebu yn ystod y mis dilynol, a chafwyd 97 o gofrestriadau ychwanegol gan staff Llywodraeth Cymru ar gyfer y cwrs ar-lein.

3.2 Cwynion

Ni dderbyniwyd cwynion sy'n ymwneud â'r Safonau Gweithredol yn ystod y cyfnod adrodd.

3.3 Sgiliau Swyddogion

**Mawrth 2019**

| | Darllen | Siarad | Deall | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| 0 | 2145 | 2588 | 2333 | 2942 |
| 1 | 1349 | 1189 | 1098 | 972 |
| 2 | 446 | 271 | 553 | 301 |
| 3 | 321 | 190 | 194 | 305 |
| 4 | 315 | 279 | 295 | 329 |
| 5 | 714 | 774 | 824 | 433 |
| X | 267 | 266 | 260 | 275 |

5415 5415 5415 5415

| | Darllen | Siarad | Deall | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| 0 | 38.6% | 46.6% | 42.0% | 52.9% |
| 1 | 24.3% | 21.4% | 19.8% | 17.5% |
| 2 | 8.0% | 4.9% | 10.0% | 5.4% |
| 3 | 5.8% | 3.4% | 3.5% | 5.5% |
| 4 | 5.7% | 5.0% | 5.3% | 5.9% |
| 5 | 12.8% | 13.9% | 14.8% | 7.8% |
| X | 4.8% | 4.8% | 4.7% | 4.9% |

**Mawrth 2018**

| | Darllen | Siarad | Deall | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| 0 | 2090 | 2501 | 2271 | 2844 |
| 1 | 1289 | 1154 | 1050 | 947 |
| 2 | 433 | 258 | 522 | 282 |
| 3 | 305 | 179 | 189 | 302 |
| 4 | 308 | 274 | 283 | 310 |
| 5 | 680 | 742 | 792 | 412 |
| X | 192 | 189 | 190 | 200 |

52
97 5297 5297 5297

| | Darllen | Siarad | Deall | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| 0 | 39.5% | 47.2% | 42.9% | 53.7% |
| 1 | 24.3% | 21.8% | 19.8% | 17.9% |
| 2 | 8.2% | 4.9% | 9.9% | 5.3% |
| 3 | 5.8% | 3.4% | 3.6% | 5.7% |
| 4 | 5.8% | 5.2% | 5.3% | 5.9% |
| 5 | 12.8% | 14.0% | 15.0% | 7.8% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| X | 3.6% | 3.6% | 3.6% | 3.8% |

3.4 Staff yn mynychu Cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn ystod 2018-19

Cyrsiau dysgu Cymraeg yn y gweithle

| **Lefel** | **Cofrestrwyd** | **Sefyll yr arholiad** |
|---|---|---|
| | | |
| Mynediad | 32 | 4 |
| Sylfaen | 29 | 10 |
| Canolradd | 20 | 2 |
| Uwch | 30 | 0 |
| Hyfedredd | 1 | Ddim yn berthnasol |
| Total | 112 | 16 |

Cymraeg Gwaith – Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Yn ogystal â chyrsiau ffurfiol wythnosol mae staff wedi manteisio ar y cynnig dysgu a ddarperir gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol:

Cyrsiau ar-lein 10 awr

| **‘Croeso’ Cymraeg Gwaith** | **Cyfanswm** |
|---|---|
| Wedi cofrestru | 150 |

| **'Croeso Nôl' Cymraeg Gwaith** | **Cyfanswm** |
|---|---|
| Wedi cofrestru | 14 |

| **Cyrsiau preswyl 5 diwrnod** | **Cyfanswm** |
|---|---|
| Nifer staff sydd wedi mynychu’r cwrs | 22 |

Sesiynau anwytho

Rhaid i bob aelod o staff newydd ymgymryd â hyfforddiant anwytho. Fel rhan o'r broses mae’r tîm cydymffurfiaeth yn darparu sesiwn ymwybyddiaeth iaith fel rhan o’r cwrs. Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd 35 sesiwn anwytho gyda 414 aelod o staff yn mynychu. Cynhaliwyd un o'r sesiynau yn ystod 2018-19 drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyrsiau iechyd a diogelwch

Cynhaliwyd pump cwrs iechyd a diogelwch trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd gyda 18 swyddog yn mynychu.

3.5 Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd wedi'u categoreiddio fel swyddi sy'n gofyn am:

i) Sgiliau Cymraeg hanfodol

ii) Sgiliau Cymraeg i'w dysgu pan benodir

iii) Sgiliau Cymraeg yn ddymunol

iv) Nid yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol

| **Categori** | **Hysbysebwyd yn fewnol** | **Hysbysebwyd yn allanol** |
|---|---|---|
| Hanfodol | 32 | 20 |
| I'w dysgu pan benodir | 0 | 0 |
| Dymunol | 93 | 54 |
| Ddim yn angenrheidiol | 620 | 69 |
| **Cyfanswm** | **745** | **143** |

## 4. Y broses

O'r cwynion y cyfeirir atynt o dan bob categori uchod, derbynnir nifer llai ohonynt yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, na'r rhai a gyfeirir atom gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Pan dderbynnir cwyn yn uniongyrchol mae ymchwiliad cyflym i'r mater fel arfer yn galluogi'r broblem i'w gael ei ddatrys yn gyflym ac er boddhad i'r achwynydd. Yn gyffredinol mae hyn yn ffordd gadarnhaol o orfodi'r safonau oherwydd mae'n datgelu problemau y gellir ymdrin â hwy yn gyflym.

Fodd bynnag, pan gyflwynir cwynion i Gomisiynydd y Gymraeg ac yna eu cyfeirio ymlaen at y Llywodraeth, gall y broses fod yn faith ac yn ddwys o ran adnoddau – yn aml yn anghymesur oherwydd y camau sydd angen eu cymryd i ymchwilio i broblemau sydd yn aml yn gymharol fân eu natur.

Deallwn fod hwn yn fater sy'n cael ei ystyried gan swyddfa'r Comisiynydd.